



**Teitl y Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW 55)**

**Cyfarfod:**

**Dyddiad y** 5 Gorffennaf 2016      **Lleoliad:** Canolfan Lletygarwch Powys,  
**Cyfarfod:** 10.30 – 13:00      Marchnad Da Byw y Trallwng,  
Buttington Cross, y Trallwng,  
Powys, SY21 8SR

**Presennol:** Ruth Hall (CNC, Cadeirydd), Carys Drew (CNC), Rhian Jardine (CNC), Rachel Lewis Davies (NFU Cymru), Howard Davies (CNC), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelaau Ieuencid), Steve Rayner (Canw Cymru), Beverley Penney (Cymdeithas y Mannau Agored), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Richard Neale (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Jean Rosenfeld (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Bernard Griffiths (Undeb Ffermwyr Cymru), Charles de Winton (CLA Cymru), Mark Stafford-Tolley (WLGA, WROWMWG, IPROW), Andrew Stumpf (Glandŵr Cymru), Emily Finney (Llywodraeth Cymru), Catrin Dellar (Llywodraeth Cymru), John Watkins (Llywodraeth Cymru), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Brett Kibble (Sustrans), Arther Lee (y Cerddwyr Anabl), Duncan Green (LARA), Catherine Williams (WATO), Graham Seymour (Fforwm Hamdden Awyr Agored Gogledd Iwerddon), Tom Packham (Dŵr Cymru), Heather Clatworthy (BHS), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), John Morgan (Cynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol), Jont Bulbeck (CNC)

**Arsylwyr:** Bryan Harrison (Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint), Richard Dearing (CNC), Michael Smith (CNC).

**Ymddiheuriadau:** Gwyn Smith\* (Sustrans), Mark Weston / Jeanne Hyett\* (Cymdeithas Ceffyllau Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), John Cuthbertson\* (y Cerddwyr Anabl), Cynrychiolydd (Mountain Training Cymru), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Cymru), Lyn Cadwallader (Un Llais Cymru), Ruth Rourke (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad\*), Rebecca Mattingley (Chwaraeon Cymru).  
Mae \* yn dynodi i gynrychiolydd dirprwyol fynychu.

| Rhif eitem: | Eitem | Cam gweithredu |
|-------------|-------|----------------|
|-------------|-------|----------------|

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Gwnaeth Ruth groeso pawb i'r cyfarfod ac atgoffa'r mynychwyr bod ganddynt groeso i siarad Cymraeg neu Saesneg, p'un bynnag a oedd yn well ganddynt.

Nodwyd mai dyma oedd y cyfarfod cyntaf ers etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai, a phenodiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig newydd, sef Lesley Griffiths AC. Dyma hefyd oedd y cyfarfod cyntaf ers y refferendwm a phenderfyniad y DU i adael y UE.

Croesawyd y siaradwyr yn eu tro, yn ogystal ag aelod newydd o'r fforwm – sef John Morgan, a fydd yn cynrychioli Fforymau Mynediad Lleol, gan ei fod newydd gael ei ethol yn Gynrychiolydd Cenedlaethol y Fforymau Mynediad Lleol. Diolchodd Ruth i Gynrychiolydd Cenedlaethol blaenorol y Fforymau Mynediad Lleol, Jean Rosenfeld, am ei holl gyfraniadau at waith Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, sydd wedi bod yn ddefnyddiol dros ben, a nododd yr holl Fforwm eu gwerthfawrogiad trwy guro eu dwylo. Bydd Jean yn parhau i gynrychioli buddiannau Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ar y Fforwm.

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau – roedd rhai eitem yn aros i gael eu lanlwytho i dudalen we Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru o hyd, a dywedodd Carys y byddai hi'n cymryd camau dilynol ynglŷn â cham gweithredu 54.4, gan ddsbarthu'r adroddiadau newydd pe baent bellach ar gael.

**'Cam gweithredu 54.4:** Joe Roberts i ddsbarthu dolenni gwe a/neu'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn ei ddiweddariadau pan fyddant ar gael.'

CD

*Nodyn ôl-gyfarfod:*

Mae Mapiau Thematig Natura 2000 ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<http://naturalresources.wales/about-us/our-projects/life-n2k-wales/life-n2k-thematic-action-plans/?lang=cy>

Mae'r Cod Defnyddwyr Llwybrau wedi cael ei ddsbarthu ar gyfer y broses ymgynghori – y dyddiad cau yw 5 Awst (Carys Drew i anfon nodyn atgoffa ar 20 Gorffennaf)

Adroddiad am yr Astudiaeth Beilot ar Newid Ymddygiad ynglŷn â Baeddu gan Gŵn – bellach ar gael (ddim ar y wefan hyd yn hyn – atodwch i'r e-bost)

---

## 2. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'r hyn mae'n ei olygu mewn gwirionedd

Rhoddodd Emily Finney, Llywodraeth Cymru, drosolwg a chyflwyniad i'r meddwl ac egwyddorion y tu ôl i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, y gwahanol gamau yn y prosesau, a'r amserlen ar gyfer yr allbynnau cyntaf.

---

Mae gan Gymru dri darn o ddeddfwriaeth gynradd sydd â'r nod o weithio gyda'i gilydd:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn diffinio ac yn rhoi cwmpas eang i'r term 'adnoddau naturiol'. Mae hefyd yn amlinellu amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (yr hyn rydym am ei gyflawni), ynghyd â'i egwyddorion (sut rydym am gyflawni hyn a ffyrdd o weithio): cynnal a gwella cydnerthed ecosystemau i ymdopi â phwysau, e.e. newid i'r hinsawdd a datblygiad, er mwyn sicrhau bod ecosystemau'n gallu rhoi'r manteision inni sydd eu hangen arnom. Mae synergedd rhwng amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r Nodau Llesiant (fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Mae Deddf yr Amgylchedd yn rhoi fframwaith cryf ar gyfer cyflawni o fewn amserlen statudol:

- Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn ofyniad i Gyfoeth Naturiol Cymru, a bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2016. Bydd hyn yn ffurfio'r gwaelodlin ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, ond bydd hefyd yn rhoi sail tystiolaeth i bawb ei defnyddio. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad o'r graddau mae datblygiad cynaliadwy yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, ac yn nodi lle mae angen gweithredu polisiâu ar gyfer gwella llesiant a chyfleoedd.
- Bydd Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael ei lunio a'i reoli gan weinidogion Cymru. Dylai gael ei lunio erbyn mis Mawrth 2017, gyda thystiolaeth o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei defnyddio.
- Mae Datganiadau Ardal yn ofyniad arall i Gyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion hwyluso'r polisi cenedlaethol ar lefel cymuned leol.

Gwnaeth Emily rannu rhai o'r syniadau mewnol a'r gwaith a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu Bil yr Amgylchedd, er mwyn rhoi syniad o'r math o bwyntiau a allai ddod trwy'r Polisi Cenedlaethol a Datganiadau Ardal, a sut y gellid dod â materion gwahanol at ei gilydd er mwyn nodi camau gweithredu sy'n cynnig llawer o fanteision ac yn ystyried y tymor hir.

Byddai Llywodraeth Cymru am ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach wrth ddatblygu Polisi Cenedlaethol.

## Pynciau trafod:

- Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar fynediad a hamdden yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n gweithio ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn edrych am gyfleoedd.
- Mae llunio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn her, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru ar y ffordd i gwblhau'r gwaith hwn.
- Mae rôl gref ar gyfer y trydydd sector yn y gwaith datblygu, ac er bod y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn atebol, ei rôl gynyddol y dyddiau hyn yw galluogi'r trydydd sector.
- O ran effaith Brexit, mae'r ffaith bod gan Gymru ddeddfwriaeth gynradd gref yn fantais, ac mae'n annhebygol y bydd mynediad ei hun yn cael ei effeithio yn gymaint ag y mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys Lloegr a Chymru.
- Pryder bod y ffocws ar dynnu o'r cefn gwlad ac adnoddau naturiol, yn hytrach na buddsoddi ynddynt, ac y bydd manteision Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, dogfen glir sy'n amddiffyn y dirwedd, yn cael eu colli o ganlyniad i Brexit.
- Mae Deddf yr Amgylchedd yn amlinellu'r egwyddorion er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu cynnal a'u gwella – er enghraifft, yn achos llifogydd, byddai hyn yn golygu edrych ar y problemau ar lefel dalgylch a chymau ataliol.
- Mae gwaith Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau adnoddau naturiol newydd ddechrau; fe fydd yn ymarfer eang ac mae adnoddau ar ei gyfer. Gwnaeth Llywodraeth Cymru groesawu syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â'r ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig pobl ifanc.
- Bydd adroddiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael ei lunio bob pum mlynedd, i gyd-fynd ag etholiadau'r Cynulliad. Mae gweinidogion yn gallu ei ddiwygio rhwng y cyfnodau hyn os bydd newidiadau sylweddol a fydd angen eu hystyried. Mae'n rhaid iddo ystyried yr Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol, a bydd yn cynnwys:
  - Y camau gweithredu mae angen eu cymryd i adeiladu cydnerthedd ar gyfer adnoddau naturiol
  - Cyfleoedd i adnoddau naturiol gyflawni amcanion llesiant, e.e. iechyd, economi carbon isel.
- Pryder bod yr amserlen ar wyneb y ddeddfwriaeth, sef llunio'r Polisi Adnoddau Naturiol erbyn mis Mawrth 2017, yn annigonol i alluogi proses ymgysylltu ddigonol yn y broses.
- Mae gwneud cyfaddawdau a chael cydbwysedd rhwng adnoddau naturiol gwahanol yn broblem sy'n derbyn sylw o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych am atebion sy'n gweithio yn y tymor hir ac sy'n rhoi llawer

o fanteision. Bydd egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhoi dull gwrthrychol ar gyfer ystyried camau gweithredu. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu fframwaith ac yn rhoi'r angen i edrych ar y gwahaniaethau ar yr wyneb, er mwyn gwireddu'r holl bolisiau ar gyfer defnyddio tir a sicrhau integreiddio.

Nododd Ruth Hall y byddai amseriad y cyfarfod nesaf yn rhoi cyfle da i gael trafodaeth bellach ac i gyfrannu at yr ymgysylltu arfaethedig; gwnaeth hi gynnig cymorth Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru pe bai Llywodraeth Cymru'n edrych am fewnbwn penodol.

**Cam gweithredu 55.1: Ruth Hall: Ystyried cynnwys Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn eitemau'r agenda nesaf.** RH

**Cam gweithredu 55.2: Carys Drew: Dosbarthu amserlen y ddeddfwriaeth a'r camau gweithredu, ynghyd â thudalen we Llywodraeth Cymru.** CD

Cwblhau **Cam Gweithredu 55.2** ar ôl y cyfarfod:  
Dolen i'r diagram sy'n amlinellu'r ddeddfwriaeth dros ddatblygu cynaliadwy i sicrhau llesiant tymor hir Cymru.

<http://gov.wales/docs/desh/publications/160610-three-bills-diagram-cy.pdf>

Mae'n cysylltu ag amserlen allbynnau ddeddfwriaeth – Deddf yr Amgylchedd 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Deddf Cynllunio 2015:

<http://gov.wales/docs/desh/publications/160321-environment-wales-act-links-to-legislation-cy.pdf>

Gwybodaeth am Ddeddf yr Amgylchedd:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/?lang=cy>

Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

<http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir/future-generations-bill>

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Gwybodaeth am y Ddeddf Cynllunio:

<http://gov.wales/topics/planning/legislation/planning-wales-act-2015/?lang=cy>

---

### 3. **NFU Cymru – persbectif tirfeddiannwr ar hamdden a mynediad**

Siaradodd Rachel Lewis-Davies am gefndir yr NFU, sefydliad aelodau, a'i agwedd tuag at hamdden a mynediad. Roedd addysgu am fwyd a ffermio'n rhan fawr a buddiol o rôl y sefydliad, a gwelir

---

mynediad yn ffordd o gynyddu'r ddealltwriaeth o'r cefn gwlad a ffermio.

Mae'r NFU yn argymhell egwyddorion gweithio gyda'n gilydd, ac mae'n sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd deddfwriaeth newydd Cymru eisoes yn dylanwadu ar sut mae NFU Cymru yn gweithio, gan edrych ar yr hyn maent yn ei wneud sy'n cyfrannu at yr amcanion a sut y gallant gyfrannu mwy.

O bersbectif ffermwr, mae dau bwynt allweddol:

- Mynediad diogel
- Mynediad cyfrifol.

Rhoddodd Rachel enghreifftiau o rai o'r materion sy'n peri problemau difrifol i ffermwyr, megis cymysgu da byw'n cael effaith ar waith a rheoli bioddiogelwch.

Gwnaeth Rachel godi nifer o gwestiynau i'w hystyried, gan gynnwys:

- Sut rydym yn cynnal y seilwaith, ac yn hyrwyddo a diweddarau mynediad cyfrifol yng nghyd-destun adnoddau sy'n crebachu?
- Sut y gallwn ni fod yn sicrhau bod y gwaith o ddarparu mynediad yn cael ei werthfawrogi, a datblygu cyfleoedd busnes i ffermwyr?
- Sut byddai Fforymau Mynediad Lleol yn rhyngweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol?

Roedd angen canolbwytio ar ganlyniadau cynyddu gweithgareddau yn hytrach nag allbynnau cynyddu'r mynediad sydd ar gael.

### **Pynciau trafod:**

- Awgrymwyd y byddai'n rhaid i Fforymau Mynediad Lleol newid eu cylch gwaith er mwyn gwella eu rôl a'u galluogi i ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'i bod yn bosibl bod ardaloedd Fforymau Mynediad Lleol yn wahanol i'r rhai a gynhwysir yn y Datganiadau Ardal.
- Nid yw mapiau digidol yn y parth cyhoeddus yn gweithio i'r un safon o wybodaeth ddigidol. Ni ddylai gwybodaeth fod ar gael ar sail ffiniau awdurdodau – dylai fod map digidol Cymru gyfan o hawliau tramwy.
- Byddai'n fanteisiol pe bai mecanwaith a oedd yn galluogi ffermwyr i fanteisio ar ddarpariaeth mynediad, e.e. meysydd gwersylla, cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr mynediad; fodd bynnag, yn ymarferol nid ydynt yn cael eu galluogi gan gynllunwyr awdurdodau i wneud hynny – cydnabuwyd bod hyn yn rhwystr mawr rhag galluogi ffermwyr i amrywio eu gwaith.
- Gwnaeth Rachel wahodd yr undebau ffermwyr eraill sy'n cael eu cynrychioli ar Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu pwyntiau eraill o bersbectif ffermwyr a thirfeddianwyr.

- Roedd Undeb Ffermwyr Cymru a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn rhannu pwyntiau tebyg, a nododd y ddau fod eu hymatebion i ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru yn y parth cyhoeddus, pe bai unrhyw un am weld manylion pellach.
- Cwestiwn canolog yw 'sut olwg sydd ar amaethyddiaeth gynaliadwy yng Nghymru?' ac roedd y drafodaeth hon yn rhoi cyfle cyffrous, sy'n debygol o ddod i'r amlwg yng ngoleuni Brexit.
- Mae rhywfaint o freuder ynglŷn â'r egwyddor y dylai mynediad fod am ddim o'r dechrau un – a dylid ystyried mai'r bobl a fyddai'n elwa mwyaf ar ddefnyddio mynediad cyhoeddus yw'r rhai mae'n haws codi braw arnynt.
- Mae gan NFU rôl wrth annog pobl i ymweld â'r cefn gwlad a'i ddeall, ac mae angen canolbwyntio ar yr hyn sydd gan bobl mewn cyffredin, a gweld mynediad yn cael ei ddefnyddio'n fwy, yn hytrach na rhagor o fynediad. Dylai'r canlyniad arwain at bobl yn defnyddio'r mynediad ac yn elwa arno.

---

#### 4. Arolwg Llwybr Arfordir Cymru a'i Effaith Economaidd

Rhoddodd Quentin Grimley gyflwyniad ar yr adroddiad am Lwybr Arfordir Cymru, a oedd wedi cael ei baratoi ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru gan Beaufort Research. Mae'r adroddiad terfynol yn mynd trwy broses graffu fewnol Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddai ar gael unwaith roedd y broses hon wedi'i chwblhau.

Gwnaeth Quentin rannu rhai o'r ffigurau a chymariaethau â'r arolwg blaenorol, a oedd yn edrych ar amryw nodweddion ymwelwyr, megis o ble roedd pobl yn dod, rhyw a dosbarth cymdeithasol, a oeddent yn aros dros nos, faint gwnaethant ei wario yn ystod eu harhosiad, a'u hymwybyddiaeth o Lwybr Arfordir Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar sut roedd Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei ddefnyddio, ar gyfer teithiau byr neu hir, cylchdeithiau, neu deithiau 'yno ac yn ôl'. Wrth ystyried yr adroddiad, mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng cerddwyr sy'n digwydd bod ar yr arfordir a phobl sy'n cerdded ar daith Llwybr Arfordir Cymru yn benodol.

Unwaith maent wedi cael eu cymeradwyo, bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu defnyddio i arwain y gwaith o reoli a marchnata Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â darparu mewnweliadau i'r gwaith o reoli llwybrau a rhaglenni rhwydweithiau eraill. Mae'n bwysig gwneud llawn ddefnydd o ganfyddiadau'r adroddiad – a fydd yn helpu i ddangos gwerth mynediad i economi Cymru.

#### **Pynciau trafod:**

- Nid oedd unrhyw gwestiynau penodol i ymatebwyr ynglŷn â diben eu hymweliad; byddai'n ddiddorol gwybod nifer yr ymwelwyr a oedd yn ymwelwyr ychwanegol – yn ymweld yn benodol oherwydd Llwybr Arfordir Cymru.

- Awgrymwyd mai ffordd dda o gynyddu gwerth Llwybr Arfordir Cymru fyddai ei wneud yn hygyrch i fathau gwahanol o ddefnyddwyr. Gan mai tua 2% yn unig o Lwybr Arfordir Cymru sydd ar agor i geffylau, roedd cyfle i ystyried gwneud rhannau o'r llwybr yn aml-ddefnyddiwr, gan ddechrau trwy dreialu rhannau efallai?
- Mae'n ddefnyddiol iawn gweld tystiolaeth sy'n dangos gwerth mynediad.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn gwaith gan Loegr Naturiol wrth fesur gwir nifer y defnyddwyr newydd ar Lwybr Arfordir Lloegr.

**Cam gweithredu 55.3: Bydd Carys Drew yn dosbarthu adroddiad Llwybr Arfordir Cymru pan fydd ar gael.** CD

## 5. Gweithgareddau Hamdden yng Ngogledd Iwerddon

Mae Graham Seymour, Cadeirydd Fforwm Hamdden Awyr Agored Gogledd Iwerddon, wedi bod yn ei swydd ers dechrau'r flwyddyn, ac roedd wedi mynychu cyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru er mwyn gweld sut mae'n cael ei drefnu a'i weithredu. Rhannodd Gareth wybodaeth am y ffordd mae hamdden yn cael ei reoli yng Ngogledd Iwerddon gyda Sport NI, a gyhoeddodd Gynllun Gweithredu Hamdden Awyr Agored Gogledd Iwerddon yn 2014. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei gymeradwyo gan dair adran y llywodraeth, sy'n dangos yr ymroddiad i integreiddio a darparu ar y cyd. Rôl Graham fel y cadeirydd oedd sicrhau bod Sport NI yn atebol a'u bod yn cyflawni eu dyletswyddau. Ar y pryd, roeddent yn aros i Grŵp Strategol y Llywodraeth gael ei sefydlu.

Mae darparu mynediad yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, lle nad oes rhwydwaith helaeth o lwybrau, neu dir cyfatebol â thir mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu dir mynediad yr Alban. Yn hytrach, mae mynediad cyhoeddus yn dibynnu ar fynediad caniatool, de facto a mynediad ar dir cyhoeddus. Mae'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mynediad wedi dyddio.

Mae Outdoor Recreation NI yn gweithio i ddarparu cynhyrchion o ansawdd uchel iawn, ac mae llawer o alw am lwybrau cymunedol, a'r awydd am y rhain yn dod o lawr gwlad. Mae eisoes llwybrau strategol hirsefydlog; mae'r llwybrau cymunedol o bellter byr i ganolig ac yn hawdd cael mynediad atynt. Mae llawer o falchder cymunedol yn y llwybrau hyn sydd wedi cael eu creu o ddim byd.

Mae rhaglenni mynediad at ddibenion iechyd, ac mae awydd i gael trafodaeth synhwyrol ac ystyrlon â ffermwyr am eu buddiannau nhw.



## Pynciau trafod:

- Ni thelir am fynediad newydd, ond weithiau mae cost yswiriant atebolrwydd cyhoeddus tirfeddianwyr yn cael ei thalu.
- Nodwyd y drefn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, a hefyd bod cylch gwaith Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn dyddio'n ôl i 2001. Gwnaeth Ruth Hall wahodd aelodau i wneud awgrymiadau ynglŷn â gwella unrhyw fylchau cynrychiolaeth; ystyrid bod cynrychiolaeth gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn fwch ar y pryd.
- Nodwyd anawsterau ynglŷn â datblygiadau newydd a chynnal mynediad, a'r awgrymiad bod rhai rhannau o Gyfoeth Naturiol Cymru'n methu gweld gwerth rhwydwaith hawliau tramwy, ac yn codi llawer o rwystrau rhag datblygu mynediad. Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal hyfforddiant mewnol i helpu staff i ddeall y cyfeiriad deddfwriaethol newydd, ac y dylent fod yn helpu awdurdodau i fanteisio i'r eithaf ar y manteision.
- Roedd is-grwpiau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – timau bach a sefydlwyd o fewn Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion penodol, e.e. ymgynghoriadau – wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Gellid bod yn rhagweithiol wrth sefydlu grwpiau yn y dyfodol, e.e. i ystyried mynediad fel rhagnodiad iechyd.
- Awgrymiad y dylai'r enw 'Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru' gael ei newid am ei fod yn peri dryswch â chyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol.
- Dylai'r fforwm edrych ar y cyd ar y dystiolaeth sydd ei hangen i siarad â Llywodraeth Cymru (pwynt HD?).
- Roedd cefnogaeth dros barhau â'r cyfraniadau ysgrifenedig – maent yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu ymlaen llaw ac maent yn helpu i gadw'r cyfarfod yn gynnil.

**Cam gweithredu 55.4:** Aelodau i ystyried cylch gwaith Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, a gwneud awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd gwahanol o weithio, a bylchau yn yr aelodaeth. Pawb

**Cam gweithredu 55.5:** Carys Drew i gysylltu ag lechyd Cyhoeddus Cymru i drafod ei aelodaeth bosibl. CD

**Cam gweithredu 55.6:** Ruth Hall/Howard Davies i drafod y pwynt ynglŷn â dull Cyfoeth Naturiol Cymru o gynorthwyo awdurdodau i ddatblygu mynediad. RH/HD

**Cam gweithredu 55.7:** Carys Drew i gynnwys cylch gwaith Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn eitemau'r agenda nesaf i alluogi trafodaeth. CD

---

## 6. Cyfraniadau gan bawb

Roedd Rhian Jardine am godi proffil y gwaith mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r fforwm. Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu dair blynedd yn ôl, ac maent wedi dechrau

---

adolygiadau o bob maes gwaith, gyda chyfanswm o wyth Adolygiad Meysydd Busnes wedi cael eu cynnal. Rhian yw rheolwr prosiect yr adolygiad o Weithgareddau Hamdden ac Addysg; mae hyn yn cynnwys gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ym meysydd hamdden a mynediad, addysg, cyllid a grantiau allanol, cynllun 'Mynediad' ar gyfer caniatáu gweithgareddau (yn flaenrol Coetiroedd a Chi) a 'Cyfle' (gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru gyda gwirfoddolwyr a phrentisiaid). Mae'r adolygiad yn ystyried lle i fanteisio ar gyfleoedd a lle i dorri'n ôl, a sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy effeithiol wrth ddarparu, er enghraifft, elw canolfannau ymwelwyr, rhaglenni mawr megis Llwybr Arfordir Cymru a Rhaglen Gyllid Gwella Hawliau Tramwy, a Mynediad Agored.

Bydd angen adfer Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr Agored Cyfoeth Naturiol Cymru yng ngoleuni'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd a'r Adolygiad Meysydd Busnes; y nod fydd 'parhau i annog rhagor o bobl i gymryd rhan ac elwa ar hamdden yn yr awyr agored yn fwy aml'.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau gwaith ar adolygu'r Cynllun Corfforaethol, a byddant yn ceisio adborth gan randdeiliaid dros y misoedd nesaf.

Gofynnodd y cadeirydd i Howard Davies, yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, gyflwyno eitem yn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu 55.8:** Howard Davies i wneud cyflwyniad ar dirweddau gwarchoddedig yn y cyfarfod nesaf.

HD

**Canw Cymru** – tynnodd Steve Rayner sylw at bwyntiau yn ei gyfraniad ysgrifenedig. Canwio Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon padl lle mai mynediad at ddŵr yw'r brif broblem. Dywedodd Steve nad oedd Canwio Cymru wedi ymgysylltu â'r gymuned mynediad yn ystod y blynyddoedd diwethaf: mae'r rheswm dros hyn yn seiliedig ar y ffaith bod padlwyr yn credu bod ganddynt yr hawl i fod yn y dŵr ar unrhyw adeg. Er nad oedd agwedd sylfaenol Canwio Cymru tuag y gyfraith wedi newid, fe wnaeth gydnabod nad oedd yr agwedd hon wedi bod yn adeiladol. Ar hyn o bryd, mae Canwio Cymru o dan reolaeth newydd, ac mae am weithio â phobl eraill er mwyn rhannu'r defnydd o gyrsiau dŵr Cymru mewn modd cynaliadwy.

Mae mynediad at afonydd yn destun safbwyntiau ystyfnig iawn rhwng buddiannau pysgota a chanwio. Roedd mynediad er mwyn cael mynediad at ddŵr (h.y. dros dir) yn faes lle roeddent yn glir nad yw hawliau tramwy o reidrwydd yn bodoli, a lle byddai'n bosibl cynnal trafodaethau a gwneud cynnydd. Mae Canwio Cymru bellach yn fodlon ystyried trefniadau rheoli priodol, ac mae cymorth y corff llywodraethu cenedlaethol yn bwysig er mwyn i drefniadau o'r fath

weithio. Mae Steve wedi bod yn ei swydd er mis Chwefror, yn gweithio un diwrnod yr wythnos, a hyd yn hyn mae e wedi bod yn gweithio ar fannau mynediad cyfredol. Nid yw dim o'r mynediad cyfredol yn bodloni safonau Canwïo Cymru, ond maent yn gweithio ar ddod o hyd i dir cyffredin ac adeiladu cydberthnasau da.

---

## 7. UNRHYW FATERION ERAILL

---

### 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cadarnhawyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

- 8 Tachwedd 2016 – Cymdeithas yr Hostelaau Ieuentid Caerdydd Canolog
- 7 Mawrth 2017 – Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW.

Dylai pawb nodi y bydd dyddiadau cyfarfodydd a phapurau bellach ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<http://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/networks-and-partnerships/national-access-forum-for-wales/?lang=cy>

---